

CYTUNDEB AR RODDI NEU FENTHYG ARCHIFAU

(AGREEMENT for the Donation or Deposit of Records)

Rhif y cytundeb:

Rhwng

(1) Cyngor Sir Ddinbych y mae ei brif leoliad busnes yn Swyddfeydd y Cyngor ,
Ffordd Wynnstay, Rhuthun LL15 1YN (“yr Awdurdod”)

a

(2) _____ (“y rhoddwr neu
Fenthyciwr”)

Cytunir fel a ganlyn :-

1. DEHONGLI

Yn y cytundeb hwn

- 1.1 Mae “archifdy” yn golygu Archifdy Sir Ddinbych a weinyddir gan Gyngor Sir Ddinbych.
- 1.2 Mae “benthyciwr” yn golygu'r person sy'n rhoi archifau ar fenthyg i'r Archifdy ac wedi hynny etifeddwyr yr archifau a'u hetifeddwyr hwythau.
- 1.3 Mae “rhoddwr” yn golygu'r person sy'n trosglwyddo perchnogaeth archifau a holl hawliau ac oblygiadau cysylltiedig i Gyngor Sir Ddinbych fel rhodd trwy ei wasanaethau archifau, Archifdy Cyngor Sir Ddinbych.
- 1.4 Mae “Archifydd y Sir” yn golygu yr uwch swyddog archifau o fewn gwasanaethau Archifau a Llyfrgelloedd, Cyfarwyddiaeth Dysgu Gydol Oes , Cyngor Sir Ddinbych .
- 1.5 Mae “Benthyciad” yn golygu dogfen neu ddogfennau y cyfeirir ati ar y Rhestr a roddir gan y benthyciwr yng ngofal yr archifdy heb newid perchnogaeth dogfennau o'r fath.
- 1.6 Mae “rhodd” yn golygu archifau a drosglwyddwyd gan y rhoddwr i berchnogaeth Cyngor Sir Ddinbych
- 1.7 Mae “cyfnod lleiafswm benthyg” yn golygu'r amser lleiaf o amser y bydd eitem yng ngofal yr archifdy.
- 1.8 Mae “archif” yn golygu'r holl neu rai o'r dogfennau a roddwyd yng ngofal yr Archifdy gan y rhoddwr fel rhodd neu fenthyciwr fel benthyciad.
- 1.9 Mae “trydydd parti” yn golygu unrhyw berson ar wahân i'r rhoddwr neu berchennog.

2. CYFFREDINOL

- 2.1 Pan fo rhoddwr yn trosglwyddo archifau i'r Archifdy fel rhodd daw'r archifau yn eiddo cyfan gwbl a pharhaol yr Archifdy a all gymryd unrhyw gamau parthed hwynt yn ôl ei benderfyniad.
- 2.2 Mae gan Archifydd y Sir hawl i ddychwelyd i'r rhoddwr unrhyw archifau a ystyrir sydd o ddim diddordeb hanesyddol, neu hefo cydsyniad, eu trosglwyddo i le mwy priodol neu eu dinistrio.
- 2.3 Derbynnir benthyciadau neu roddion gan Archifydd y Sir ar y ddealltwriaeth bod gan y rhoddwr neu fenthyciwr hawl i roddi neu fenthycy archifau naill ai fel eu perchennog neu trwy weithredu fel ei asiant ef neu hi.
- 2.4 Cytunir i bwrpas Deddf Gwarchod Data 1998 fod y benthyciwr yn cael ei ystyried yn rheolwr unrhyw ddata a gynhwysir yn yr archif sy'n dod o dan y ddeddf honno (Nodyn: os bydd yr archifau'n cynnwys data personol neu ddata personol sensitif fel a ddiffinnir o fewn Deddf Gwarchod Data 1998 ac fel a ddehonglir mewn achosion cyfreithiol o dro i dro perthynol i drydydd parti, dylai'r benthyciwr gyfyngu'r mynediad i'r archifau nes bod y trydydd parti yn rhoi caniatâd. Gellir gofyn am arweiniad pellach ar hyn gan Archifydd y Sir).
- 2.5 Mae archifau a dderbynnir gan Archifydd y Sir gyda'r bwriad o fod yn fenthyciad yn parhau yn eiddo i'r rhoddwr sy'n cadw'r hawl i'w tynnu nôl yn amodol ar delerau ac amodau'r cytundeb hwn.
- 2.6 Dywedir wrth Archifydd y Sir am unrhyw newid yn enw a chyfeiriad perchennog archifau neu fenthyciwr cyn gynted â phosib.
- 2.7 Ni fydd yr Archifydd yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw ganlyniad a all godi o fethu rhoi gwybod am unrhyw newid yn ôl Amod e 2.6.

3. CYFNOD BENTHYCIAD LLEIAFSWM

- 3.1 Mae Archifydd y Sir yn cadw'r hawl i nodi cyfnod benthycy lleiafswm. Os oes cyfnod benthycy lleiafswm ar y cytundeb hwn gellir ei nodi yn atodiad 1 y cytundeb hwn.

4. RHESTRU

- 4.1 Rhestrir yr archifau fel rhan o raglen catalogio archifau pob casgliad sydd yn ei ofal hyd y lefel ac yn y dull priodol i natur a nifer y dogfennau yn yr archif. Darperir copi o'r rhestr / catalog hwn i'r benthyciwr ar ôl ei gwblhau.
- 4.2 Caiff archifau eu rhifo er mwyn eu canfod. Bydd hawlfraint y rhestri hyn ac unrhyw mynegeion yn aros yn eiddo i'r Archifdy.

5. CAEL GAFAEL AR ARCHIFAU

- 5.1 Yn ôl disgrisiwn Archifydd y Sir, ac yn amodol ar yr eithriadau a amlinellir yn amodau 2.5 a 5.3, bydd archifau ar gael at ddefnydd ymchwil gan unigolion sy'n dangos diddordeb difrifol ynddynt.
- 5.2 Bydd archifau ar gael i'r perchennog os bydd yn wahanol i'r rhoddwr, y rhoddwr, Aelodau o'i deulu ac unrhyw un a enwebwyd gan y rhoddwr.
- 5.3 Ni chaiff y cyhoedd weld yr archifau nes caiff yr archifau eu rhestru / catalogio neu nes y paratoir rhestr oni bod y rhoddwr yn cytuno neu beidio ei bod hi'n briodol gwneud hyn o dan Ddeddf Gwarchod Data neu Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.
- 5.4 Bydd Archifydd y Sir neu'r benthyciwr gyda chytundeb y parti arall yn cael cyfyngu mynediad y cyhoedd i archifau unigol yn unol â deddfau rhyddid gwybodaeth a gwarchod data. Rhaid cael cytundeb rhwng yr Archifydd Sirol a'r benthyciwr ynglyn â'r amodau penodol hyn yn cynnwys cyfyngiadau ar gynhyrchu, arddangos neu gyhoeddi archifau penodol a rhaid eu atodi at y cytundeb hwn.

6. DEFNYDDIO ARCHIFAU

- 6.1 Bydd gan yr Archifdy hawl i gymryd photograph, microffilm neu fel arall gopi o'r dogfennau, a bydd y copïau yn eiddo i'r Archifdy.
- 6.2 Gall yr Archifdy wneud copïau o'r archifau i bwrpas yr Archifdy ei hun gan gynnwys trefnu eu bod ar gael tu allan i'r Archifdy i hyrwyddo ei wasanaethau a rhoi cyhoeddusrwydd i'w weithgareddau.
- 6.3 Gofynnir am ganiatâd y benthyciwr am unrhyw gyhoeddiad o ran sylweddol o ddogfen.
- 6.4 Yn amodol ar gadwraeth a darparu hawlfraint, gellir atgynhyrchu archifau i aelodau o'r cyhoedd i bwrpas astudio, arddangos a chyhoeddi.

7. CADWRAETH / GOFAL O ARCHIFAU

- 7.1 Cymerir pob gofal rhesymol o'r archifau a roddwyd yng ngofal Archifdy Sir Ddinbych yn ôl ei bolisi cadwraeth.
- 7.2 Caiff Archifau eu rhifo i sicrhau eu diogelwch.
- 7.3 Gwneir atgyweiriadau i archifau pan yn briodol ac yn ôl adnoddau'r Archifdy.
- 7.4 Ni fydd dogfennau brau neu ar risg o ddifrod ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio.

8. TYNNU ARCHIFAU YN ÔL

- 8.1 Gellir symud Archifau tros dro o'r Archifdy gan y benthyciwr am gyfnod dros dro. Bydd angen pum diwrnod gwaith o rybudd ysgrifenedig o fwriad i symud yr archifau.
- 8.2 Os bydd y benthyciwr yn gofyn am gael yr archifau'n ôl yn barhaol bydd angen mis o rybudd ysgrifenedig ar hynny.
- 8.3 Os yw'r benthyciwr yn tynnu'n ôl y benthyciad neu unrhyw ddogfen gall yr Archifdy fel y mynnai godi tal am y costau rhestru, storio a chadwraeth.

- 8.4** Yn ystod y cyfnod rhybydd bydd yr Archifdy yn cael copïo'r archif neu unthyw ddogfen mewn unrhyw fodd addas ac i wneud y copiau ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio ar ôl i'r trosglwyddiad.
- 8.5** Mae angen unrhyw berson sydd yn bwriadu tynnu'n ol y benthyciad yn barhaol neu dros dro yn gorfod profi ei fod â'r hawl i wneud felly i foddhad yr archifdy
- 8.6** Cyfeirir unrhyw gais i arddangos archifau tu allan i eiddo y Cyngor ei gyfeirio at y benthyciwr.

9. GWYBODAETH AM Y RHODDWR

- 9.1 Mae'r rhoddwr yn cydnabod y bydd Archifdy Sir Ddinbych yn cofnodi data personol y rhoddwr (os yn addas) neu'r benthyciwr (enw a chyfeiriad) er mwyn canfod yr archifau a roddwyd o dan delerau'r cytundeb .
- 9.2 Gellir datgelu'r wybodaeth yma i'r cyhoedd os gofynnir. Ticiwch y blwch os cytunwch i'r wybodaeth yma fod ar gael yn y ffordd yma.

ATODIAD 1: RHODD

Caiff y cofnodion am y cytundeb hwn ei drosglwyddo fel rhodd i Archifdy Sir Ddinbych.

Llofnod y rhoddwr:
Dyddiad:

Llofnod yr archifydd
Dyddiad:

ATODIAD 2: BENTHYG

Rhaid i'r cofnodion fod yn amodol at y cytundeb hwn fod o fewn Archifdy Sir Ddinbych am leiafswm o blwyddyn.

Llofnod y benthyciwr:
Dyddiad:

Llofnod yr archifydd
Dyddiad: